**12.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **12C420** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**RNLI (Trading) Limited**
**c/o Clive Moore Architectural Services**
**Helyg yr Ala**
**Pwllheli**
**Caernarfonshire**
**United Kingdom**
**LL53 5BL**

Ehangu'r mynediad presennol a llithrfa ar gyfer lansio ac adennill bad achub yn

Widening of existing access and slipway to facilitate the launching and recovery of the lifeboat at

Beaumaris Pier, Beaumaris Slipway, Beaumaris



**Pwyllgor Cynllunio:**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(DO)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Yr awdurdod lleol yw perchenog y safle.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle ger y llithrfa gyhoeddus ym Mhier Biwmares ac o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol dynodedig ac Ardal Gadwraeth Biwmares.

Y bwriad yw lledu'r fynedfa bresennol a'r llithrfa er mwyn gallu lansio a thynnu'r bad achub yn ôl i fyny.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Prif faterion y cais yw ei effaith ar yr ardal o gwmpas sydd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a hefyd yn Ardal Gadwraeth Biwmares.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 28 – Llif Llanw a Llifogydd Afon
Polisi 30 – Tirlun
Polisi 36 – Datblygu Arfordirol
Polisi 37 – Mynediad y Cyhoedd
Polisi 42 – Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D1 – Tirlun
Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D32 - Tirlunio

**Cynllun Datblygu Unedig a Stopwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi EN2 – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Polisi EN9 – Datblygu o fewn neu ger wlybtiroedd, dyfrgyrsiau a thraethau
Polisi SG2 – Datblygu a Llifogydd

## 4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

Aelod Lleol – Caniatau

Dwr Cymru – Dim ymateb

Amgylched Adeiladedig – Caniatau

Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol – Amod

Cyngor Tref – Caniatau

Priffyrdd – Dim argymhelliad

Asiantaeth yr Amgylchedd – Sylwadau

Draenio - Sylwadau

CCC – Dim gwrthwynebiad

Morwrol – Caniatau

Strwythur - Caniatau

**Ymateb gan aelodau'r cyhoedd**

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais mewn tair ffordd. Gosodwyd rhybudd safle ger y safle, cyhoeddwyd rhybudd yn y wasg yn lleol a rhoddwyd rhybuddion personol i ddeiliaid eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 13 Ebrill 2012. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw lythyrau wedi cael eu derbyn yn yr adran.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

Dim

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

Mae'r cynnig yn golygu lledu'r fynedfa bresennol rhyw 650mm ac ymestyn y llithrfa rhyw 700mm er mwyn gallu lansio'r bad achub a'i thynnu yn ôl i fyny wedyn.

Mae safle'r cais o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol dynodedig a hefyd Ardal Gadwraeth Biwmares.

Gwaith gweddol fychan o ran natur yw'r gwaith a fwriedir ac nid ydym yn credu y bydd y gwaith hwnnw yn cael effaith andwyol ar yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol na'r Ardal Gadwraeth.

## 7. Casgliad

Bydd y cynnig yn gwella'r fynedfa i'r llithrfa. Ni fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar y dirwedd oddi amgylch.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 17/04/12 o dan cais cynllunio rhif. 12C420.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**(03) Cyn dechrau'r gwaith rhaid cyflwyno datganiad dull a rhestr o'r gwaith i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

## 12.2 Gweddill y Ceisiadau — Remainder Applications

Rhif y Cais: **19C35B** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Highways and Waste Management)**
**Isle of Angelesy County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7TW**

Cais llawn i osod cerflunwaith ar dir yn

Full application for the installation of a sculpture on land at

St Cybi's Church, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 02/05/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(NJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Y Cyngor sy’n gwneud y cais.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae’r safle o fewn ffin ddatblygu Caergybi ac o fewn yr Ardal Gadwraeth ddynodedig. Mae’r safle hefyd o fewn mynwent amgaeedig Sant Cybi. Mae’r eglwys wedi’i hadeiladu o fewn hen gaer Rufeinig arfordirol fechan sydd yn heneb restredig. Mae waliau’r fynwent uchaf hefyd wedi’u rhestru fel strwythurau graddfa 1, yn ogystal â’r eglwys ei hun, tra bo waliau’r frynwent isaf ac Eglwys y Bedd, sydd hefyd yn yr un ardal, yn strwythurau rhestredig graddfa II.

Mae hwn yn gais llawn i leoli craig addurniadol yn y fynwent fel arwydd ar gyfer Llwybr Arfordirol Ynys Môn. Mae’r garreg fawr yn mesur 1800mm o hyd a 1370mm o led ac mae’n 980mm o ddyfn. Bydd yn cael ei haddurno gyda llinellau consentrig wedi’u cerfio yn deillio o amlinell Ynys Môn. Bydd yn cael ei osod ar y llwybr presennol yng nghornel ogledd ddwyreiniol y fynwent uchaf.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion gyda’r cais yw a fydd y cynnig yn effeithio ar y dirwedd hanesyddol.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 - Polisi Cyffredinol
Polisi 37 - Mynediad i'r Arfordir a Chefn Gwlad
Polisi 39 - Archeoleg
Polisi 40 - Cadwraeth Adeiladau
Polisi 41 - Cadwraeth Adeiladau
Polisi 42 - Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 - Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D15 - Archeoleg
Polisi D21 - Adeiladau Rhestredig
Polisi D22 – Adeiladau Rhestredig
Polisi D25 - Ardaloedd Cadwraeth
Polisi D29 - Dyluniad
Polisi D33 - Gwelliannau Amgylcheddol

**Cynllun Datbygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 - Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 - Dyluniad
Polisi EN12 - Safleoedd Archeolegol a'r Amgylchedd Hanesyddol
Polisi EN13 - Cadwraeth Adeiladau

**Nodyn Cyngor Technegol 12** - Dyluniad

Cylchlythyr 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

cynllun meistr a Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth

Menter Treftadaeth Tref Caergybi

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol - dim ymateb ar adeg ysgrifennu

Cyngor Tref - dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd - Sylwadau mewn perthynas â niwed posibl i heneb restredig yn ystod y gwaith gosod ac effaith debygol ar bethau mwy diweddar

CADW - dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd - Sylwadau mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol ond yn cefnogi'r cynllun fel y mae wedi'i gyflwyno. Swyddog THI yn cefnogi'r cynllun fel mae wedi'i gyflwyno.

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais trwy osod rhybuddion ar y safle a hysbyseb yn y wasg leol gyda'r dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau ar 1 Mai. Nid oedd unrhyw sylwadau wedi cael eu derbyn mewn ymateb i'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r cais ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

19C35A – Gwelliannau Amgylcheddol yn Sant Cybi, y Fynwent Uchaf ac Isaf, Caergybi – cymeradwyo 9/12/91.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Yr Egwyddor o Ddatblygu** - Mae Llwybr Arfordirol Ynys Môn yn dechrau ac yn gorffen ym mynwent Sant Cybi. Y cynnig o dan ystyriaeth yw un am gerflun i farcio'r lleoliad - ar hyn o bryd mae'n cael ei farcio gydag arwydd disylw ger gwaelod y wal ddeheuol ger y ddau fwa sy'n rhoi mynediad i'r fynwent o Sgwâr y Farchnad. Bydd y garreg addurnedig yn rhoi ffocws celf gyhoeddus fel marciwr a bydd yn rhoi pwysigrwydd i'r man cychwyn. Mae Polisi 37 o Gynllun Lleol Ynys Môn yn dweud y bydd cynigion sy'n annog mynediad i gerddwyr i'r arfordir a'r cefn gwlad yn cael ei ganiatáu. At hyn, mae'n dweud y bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu'r Rhwydwaith o lwybrau arfordirol a chysylltiadau oddi arno i gyfleusterau hamdden ac i drefi a phentrefi'r ynys. Mae'r llwybr arfordirol yn rhan o Lwybr Arfordirol Cymru Gyfan sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer o fentrau'n nodi eglwys Sant Cybi fel hwb i weithgareddau ymwelwyr a bydd y garreg fawr yn gweithredu fel datganiad cryf fydd yn marcio'r llwybr a bydd ei leoliad yn

creu cyswllt gweledol cryf gyda'r arfordir trwy'r golygfeydd o'r porthladd.

**Amgylchedd Hanesyddol** - Mae'r safle o fewn yr Ardal Gadwraeth ddynodedig ehangach ond o ran y safle ei hun, mae o fewn waliau sydd yn heneb restredig ac yn agos at adeiladau rhestredig Graddfa I a II. Mae hwn yn safle sensitif iawn, o ran ei olion archeolegol yn ogystal ag olion angladdol mwy diweddar. Roedd trafodaethau cychwynnol yn cynnig lleoliad i'r garreg ger y ddau fwa ger y wal ddeheuol. Oherwydd ei agosrwydd i'r waliau rhestredig a'r effaith a gâi ar osodiad y lle a'r adeiladau rhestredig (a hefyd y ffaith nad oedd yn ddigon amlwg fel marciwr i'r Llwybr Arfordirol) fe ailystyriwyd y cynllun ac y mae'r cais wedi symud y cynllun i ochr arall y fynwent i le mwy amlwg ond i le sydd yn ffisegol ac yn weledol yn cynnig gwell cyswllt i'r Llwybr Arfordirol ond sydd hefyd yn cadw ar wahân oddi wrth y pethau hanesyddol ar y safle. Mynegodd Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd bryderon ynglŷn â chreu difrod i strwythurau yn ystod gosod y garreg ond credir y bydd gosod amod yn gofyn am ddatganiad dull manwl i'w gytuno ymysg y partïon yn cynnwys GAPS a CADW yn sicrhau y bydd dulliau diogel yn cael eu defnyddio i leihau risgiau yn ogystal â sicrhau na fydd unrhyw waith cynnal a chadw yn y dyfodol yn difrodi dim ar asedau hanesyddol y safle.

**7. Casgliad**

Mae egwyddor y cynllun yn cael ei gefnogi yn nhermau polisi. Mae trafodaethau cyn gwneud y cais a phryderon eraill ynglŷn ag effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol wedi arwain at newid y cynllun a'r canlyniad yw bod y cais fel ag y mae wedi cael ei gyflwyno ar hyn o bryd yn cael ei gefnogi.

**8. Argymhelliad**

**Caniatáu**

**(01) Rhaid dechrau'r datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn ag ef heb fod yn hwyrach na diwedd pum mlynedd sy'n dechrau gyda dyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bydd datganiad dull ar gyfer gosod y graig ynghyd â'i chynnal a'i chadw yn y dyfodol wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i'r cynllun fynd yn ei flaen yn hollol unol â'r manylion fydd wedi'u cytuno oni bai bod yr awdurdod cynllunio lleol yn rhoddi ei ganiatâd ysgrifenedig cyn hynny i unrhyw newid.**

Rheswm: I ddiogelu'r asedau hanesyddol ar y safle.

**12.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **19C163C** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Careers Wales**
**c/o Anglesey Three Towns**
**Structures - Highways**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7TW**

Cais llawn ar gyfer gosod delwedd ar gaeadau ffenestr presennol yn

Full application for the installation of an image on the existing window shutters at

Career Wales Area Office, Market Square, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 02/05/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (AMG)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithredu fel asiant i'r ymgeisydd.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle yng Nghanol Tref Caergybi ac o fewn Ardal Gadwraeth ddynodedig Caergybi. Gyrfaoedd Cymru yw deiliaid y safle ar hyn o bryd.

Mae'r bwriad yn golygu gosod delwedd ar shyteri ffenestr Swyddfa Ardal Gyrfaoedd Cymru, Stryd y Farchnad, Caergybi.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion i'w hystyried yw a fydd y cynnig yn cael effaith ar gymeriad yr ardal oddi amgylch sydd o fewn yr Ardal Gadwraeth ddynodedig a hefyd ddiogelwch y briffordd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 40 – Diogelu Adeiladau
Polisi 42 - Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D25 – Ardal Cadwraeth
Polisi D29 – Safon y Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi EN13 – Cadwraeth Adeiladau

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 4 Chwefror 2011**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Cyngor Tref– Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Priffyrdd - Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynnig mewn dwy ffordd: gosodwyd rhybudd safle ger y safle a rhoddwyd rhybudd yn y papur newydd lleol. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 3 Mai 2012. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn yn yr adran.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

19C163 – Newid defnydd o fwyty trwyddedig ar lefel llawr cyntaf yr adeilad ar groeslon Stryd y Farchnad a Stryd Williams, Caergybi – Canaitau 12/03/1986.

19C163A – Ailwampio cragen allanol yr adeilad yn Central Buildings, 4 & 5 Stryd y Farchnad, Caergybi – Caniatáu 13/12/1995.

19C163B – Newid defnydd y llawr isaf o adwerthu i ganolfan gyrfaoedd ynghyd â lloriau cyntaf ac ail yn swyddfeydd yn Central Buildings, Stryd y Farchnad, Caergybi – Caniatáu 11/01/1996.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Yr effaith ar yr Ardal Gadwraeth oddi amgylch –** Nid ydym yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith ar yr Ardal Gadwraeth oddi amgylch. Mae'r shyteri presennol yn rhai o liw metel llwyd ac rydym yn credu y bydd y ddelwedd a fwriedir, sef un o Draeth Porthdafarch yn gwella edrychiad y shyteri a hefyd yr Ardal Gadwraeth yn gyffredinol.

**Diogelwch y briffordd** – Nid wyf yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith ar ddiogelwch y briffordd. Nid yw Adain Priffyrdd y Cyngor wedi lleisio unrhyw bryderon.

**7. Casgliad**

Yn dilyn ystyried yr uchod a'r holl ystyriaethau eraill o bwys, fy argymhelliad yw y dylid caniatáu'r cais gydag amodau.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 05/04/12 a 11/04/12 o dan cais cynllunio rhif. 19C163C.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

## 10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd

Dim

**12.4** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **33LPA861C/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Services (Waste Management)**
**c/o Bowen Dann Knox Architects**
**20 Wynnstay Road**
**Colwyn Bay**
**Conwy**
**LL29 8NF**

Cais llawn ar gyfer codi cysgodfa ymsmygu \ beiciau, canopi i'r drychiad ochr ynghyd a gosod camerau diogelwch yn

Erection of cycle \ smokers shelter, canopy to side elevation together with the installation of a security camera at

Biffa Depot, Gaerwen Industrial Estate, Gaerwen



**Pwyllgor Cynllunio: 02/05/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (EH)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae’r cais yn un ar dir y Cyngor.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cynnig yw hwn i godi cysgodfan ysmygu/beics, gosod camera diogelwch a chodi canopi ar y fynedfa ochr.

Mae’r Depo Rheoli Gwastraff ar Stad Ddiwydiannol Gaerwen ger Oakwood Joinery sydd hefyd ym mherchnogaeth y Cyngor.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion yw a yw dyluniad y cynnig yn dderbyniol.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 - Polisi Cyffredinol
Polisi 42 - Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 - Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D29 - Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 - Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim sylwadau

Cyngor Cymuned – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu’r adroddiad.

Priffyrdd – Dim argymhelliad.

Dwr Cymru - Yn dweud bod pibell ddosbarthu’n croesi’r safle. Mae yna tua 14 metr o ffin y gysgodfan beics / ysmygu arfaethedig i’r mêns dwr.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i’r cais trwy osod rhybudd safle, rhybuddion unigol a hysbysebu yn y wasg yn lleol. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 19 Ebrill a 2 Mai 2012. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau wedi’u derbyn.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

33LPA861/CC: Codi adeilad storio yn Depo Gaerwen, Stad Ddiwydiannol Gaerwen. Caniatáu - 08.12.05

33LPA861A/CC: Codi adeilad gyda gorsaf brawf MOT a gweithdy trwsio cerbydau yn Depo Ynys Môn, Stad Ddiwydiannol Gaerwen. Caniatáu - 07.09.06

33LPA861B/CC: Gwaith altro i'r fynedfa i gerbydau, creu maes parcio ac altro’r adeilad yn Depo Rheoli Gwastraff, Gaerwen. Caniatáu - 06.11.08

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Dyluniad: Mae Polisi 1 Cynllun Leol Ynys Môn yn dweud y bydd y Cyngor yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â pholisïau a chynigion yn y cynllun. Wrth ystyried ceisiadau cynllunio bydd y Cyngor yn ystyried y meini prawf rhestredig. Mae Polisi D4 Cynllun Fframwaith Gwynedd yn dweud y bydd gosodiad, lleoliad a dyluniad gofalus yn ystyriaeth o bwys wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Bydd cymeriad yr adeilad yn parhau heb ei newid gyda’r ychwanegiadau a fwriedir. Ystyrir bod y deunyddiau sydd i’w defnyddio yn dderbyniol yn y lleoliad. Bychan iawn yw’r newidiadau i du allan y Depo ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y swyddfeydd eraill sydd o gwmpas o fewn y Stad Ddiwydiannol.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol o dderbyn ymatebion boddhaol o’r ymgynghori.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 19.03.12 o dan cais cynllunio rhif. 33LPA861C/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Polisi Cynllunio Cymru Cyfrol 4 2011

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

**12.5** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **34LPA956/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Service**
**Estates Department**
**Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Anglesey**
**LL77 7TW**

Cais amlinellol ar gyfer dymchwel yr adeilad cyn meithrin ynghyd a chodi 3 annedd yn

Outline application for the demolition of former nursery building together with the erection of 3 dwellings at

Former Nursery Building, Nant Terrace, Llangefni



**Pwyllgor Cynllunio: 02/05/0212**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Daw'r cais cynllunio hwn gerbron y pwyllgor cynllunio oherwydd ei fod yn ymwneud â thir y Cyngor ac y mae'r cais yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Hen ysgol feithrin a'r tir cyfagos sydd ar safle'r cais ac maent mewn lle uchel ac amlwg gyferbyn â chroeslon a ger llwybr cyhoeddus ac o fewn yr ardal gadwraeth. Tua'r gogledd mae'r tir yn disgyn i lawr i ardal Nant y Pandy yn Llangefni. Mae yna dai teras tua'r dwyrain ar hyd y B5109.

Cais amlinellol yw hwn gyda'r holl fanylion wedi 'u cadw'n ôl i'w hystyried yn y dyfodol. Mae'r cynnig yn cynnwys newid yr adeilad unllawr am deras o dri tŷ deulawr, mynedfa newydd a lle parcio ceir. Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd yn dangos bod y garthffosiaeth wedi'i chysylltu i'r garthffosiaeth gyhoeddus a draeniad y dŵr wyneb i ddraen dŵr wyneb cyhoeddus.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Yr Egwyddor o Ddatblygu.
- Perthynas gyda phethau o'i gwmpas a'r Ardal Gadwraeth.
- Gorchymyn Cadw Coed.
- Ystyriaethau manwl eraill

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

A2 (Tir ar gyfer Tai)

D24 (Dymchwel mewn Ardal Gadwraeth)

D25 (Ardal Gadwraeth)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

40 (Cadwraeth Adeiladau)
41 (Cadwraeth Adeiladau)

48 (Meini Prawf Datblygu Tai)

49 (Anheddau Diffiniedig)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd "CDLl"**

GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

EN13 (Cadwraeth Adeiladau)

HP2 (Dwysedd)

HP3 (Datblygu Tai Newydd – Prif Ganolfannau a Chanolfannau Eilaidd)

EN14 (Gorchymyn Cadw Coed a Gwrychoedd)

**Polisi Cynllunio Cymru**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Yr Aelod Lleol** Dim sylwadau wedi'u derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Cyngor Cymuned** Angen ystyried yr effaith ar lif y traffig cyn rhoi caniatâd.

**Priffyrdd** Caniatâd amodol.

**Draenio** Dylid ei gyfeirio i Dŵr Cymru.

**Asiantaeth yr Amgylchedd** Wedi asesu'r cais fel un sydd â risg amgylcheddol isel.

**Dwr Cymru** Caniatad amodol ac wedi nodi lleoliad ei offer sy'n croesi safle'r cais.

**Gwasanaethau Amgylcheddol** Yn argymell gosod amod ynglŷn â chyfnodau adeiladu.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** Dim yn gwrthwynebu'r cynnig. Yn ein barn ni, fel yr eglurir isod, nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith andwyol ar unrhyw un o'r diddordebau a restrwyd.

**Cynghorydd Ecolegol** Yn argymell gwybodaethau ynglŷn â'r Adroddiad Ecolegol.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Mae yna gais arall ar raglen y pwyllgor sy'n gofyn am ganiatâd ardal gadwraeth i ddymchwel yr hen ysgol feithrin (34LPA956A/CA/CC) ac i dorri rhai o'r coed yn y goedlan TPO (34LPA956B/TPO/CC).

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Yr Egwyddor o Ddatblygu**

Mae safle'r cais yn dir a ddatblygwyd o'r blaen o fewn ffin ddatblygu Llangefni yng Nghynllun Lleol Ynys Môn ac yng Nghynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd ac felly mae'r egwyddor o ddatblygu yn cael ei ystyried yn un derbyniol.

**Perthynas gyda'r pethau o'i gwmpas a'r Ardal Gadwraeth.**

Mae safle'r cais o fewn Ardal Gadwraeth Llangefni. Y bwriad yw newid adeilad unllawr sydd ar hyn o bryd yn tynnu oddi wrth yr ardal. Bydd ailddatblygu safle'r cais gyda thai teras deulawr sydd eisoes i'w cael ar hyd y rhan hon o'r B5109 yn gweddu gyda'r ardal. Mae amodau wedi cael eu hargymell ynglŷn â'r deunyddiau allanol, to llechi, y defnydd o wal gerrig ger y briffordd a thirlunio. Gan gadw hyn oll mewn golwg, ystyrir y bydd y cynigion yn cadw ac yn gwella'r rhan hon o'r ardal gadwraeth.

**Gorchymyn Cadw Coed (TPO)**

Mae rhan o'r safle yn dod o fewn Gorchymyn Cadw Coed Nant y Pandy ac mae yna ychydig o goed ceirios bychan a choed jacmor ar y safle sydd o dan 3 metr o uchder ac y byddai'n rhaid eu symud oddi yno fel rhan o'r datblygiad. Mae swyddog coed y cyngor wedi asesu'r coed hyn ac nid yw'n gwrthwynebu eu tynnu oddi yno.

**Materion manwl eraill**

Gan roi sylw i sylwadau Cyngor Tref Llangefni, mae'r adain briffyrdd yn ystyried bod y fynedfa i'r datblygiad yn dderbyniol o osod amodau.

Nid ydym yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith fawr ar fwynderau'r eiddo preswyl cyfagos.

Mae safle'r cais yn cael ei groesi gan ddraeniau dŵr wyneb a dŵr budr. Mae'r cynllun bloc a gyflwynwyd yn dangos y gall y safle hwn dderbyn y tair annedd yn y ffurf y bwriedir eu hadeiladu.

Byddir yn cael gwared o ddŵr wyneb i'r garthffosiaeth gyhoeddus drwy system hidlo a disgwylir i Dŵr Cymru ddweud bod hyn yn dderbyniol mewn egwyddor.

**7. Casgliad**

Cynnig yw hwn i ailddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol o fewn y dref a bydd yn cadw ac yn gwella cymeriad y rhan hon o'r ardal gadwraeth.

**8. Argymhelliad**

Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio i **ganiatau** y cais gyda'r amodau a ganlyn:

**(01) Rhaid wrth gymeradwyaeth y Cyngor cyn cychwyn gweithio ar y materion neilltuol isod sef lleoliad, graddfa, gwedd yr adeilad(au), mynedfa ato/atynt a thirlunio'r safle.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgeisio am ganiatâd i'r mater (ion) neilltuol y cyfeirir atynt uchod ymhen tair blynedd o'r dyddiad y rhoddir y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(03) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo erbyn un o'r ddau ddyddiad isod, pa un bynnag sydd yn digwydd olaf, sef:- (a) o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn neu (b) o fewn dwy flynedd i'r dyddiad pryd rhoddi'r caniatâd terfynol i'r mater(ion) wrth gefn a nodir neu, pan fo caniatâd yn cael ei roddi ar ddyddiadau gwahanol, y dyddiad pryd caniatawyd yn derfynol yr olaf o'r mater(ion) wrth gefn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(04) Cwblheir y datblygiad a ganiateir trwy hyn mewn cytundeb llwyr a'r manylion ar cynlluniau wedi dablu o dan ac a gynhwysir yn y ffurflen gais, ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cyfryw cais.**

| Rhif Darlun | Enw Darlun |
|---|---|

| | |
|---|---|
| HP201-A3-01 | Cynllun Lleoliad Presennol |
| HP201-A3-02 | Cynllun Bloc |
| HP201-A1-03 | Lefelau'r Safle |
| HP201-A1-04 | Croesdoriadau'r Safle |

**Oni bai cymeradwywyd yn ysgrifenedig fel arall gan yr awdurdod cynllunio lleol neu wedi cynnwys o dan ddarpariaeth unrhyw amodo'r caniatâd cynllunio.**

Rheswm I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

**(05) Rhaid i'r annedd a ganiateir yma fod wedi'i hadeiladu i gyrraedd isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 a chyrraedd o leiaf 6 o gredydau o dan gategori Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' - yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy: Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol). Rhaid adeiladu'r datblygiad yn hollol unol â'r asesiad a'r ardystiad fydd wedi'i gymeradwyo.**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(06) Ni chaniateir dechrau adeiladu'r annedd a ganiateir yma hyd nes bo 'Tystysgrif Interim' wedi'i chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac o leiaf 6 o gredydau o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr annedd yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon, neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(07) Cyn bod neb yn byw yn yr annedd a ganiateir yma, rhaid cyflwyno 'Tystysgrif Terfynol' Cod Cartrefi Cynaliadwy i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac isafswm o 6 credyd o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr annedd yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(08) Rhaid toi'r datblygiad a ganiateir yma gyda llechi naturiol grug las Cymreig, neu gyda llechi o'r un lliw, gwead a nodweddion hindreulio. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad hyd nes bydd samplau neu ddisgrifiadau masnachol o'r llechi a fwriedir eu defnyddio ar do'r datblygiad wedi eu cyflwyno a'u cymeradwyo mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid defnyddio'r llechi cymeradwyedig i gario allan y datblygiad.**

Rheswm: I warchod cymeriad ac edrychiad yr adeilad rhestredig.

**(09) Ni chaniateir cyflawni unrhyw ddatblygiad cyn cyflwyno manylion o'r deunyddiau y bwriedir eu defnyddio ar wynebau allanol y datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'u cymeradwyo ganddo**

**mewn ysgrifen. Rhaid defnyddio'r deunyddiau a gymeradwywyd wrth weithredu'r datblygiad.**

Rheswm : I sicrhau golwg foddhaol i'r datblygiad.

**(10) Fe fydd y manylion i'w cyflwyno er cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol ag Amod (1) uchod yn cynnwys manylion lefelau slabiau arfaethedig yr adeilad(au) mewn perthynas a lefelau presennol ac arfaethedig y safle a'r tir oddi amgylch. Bydd yr adeilad(au) yn cael eu hadeiladu gyda slabiau ar lefelau a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**

Rheswm : I osgoi unrhyw amheuaeth ac i sicrhau ffurf foddhaol o ddatblygiad.

**(11) Ni chaniateir gwneud unrhyw waith datblygu hyd nes y bo manylion llawn am gynllun yn dangos yr holl ddulliau arfaethedig o gau oddi amgylch ac o fewn y safle boed hynny trwy waliau, ffensys neu wrychoedd, wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn gynnwys wal wedi'i hadeiladu o garreg leol naturiol heb fod yn uwch nag 1 metr ar hyd yr holl derfyn gyda'r briffordd gyhoeddus. Rhaid i'r dull cymeradwy o gau i mewn gael ei adeiladu, ei godi neu ei blannu cyn y bydd neb yn defnyddio'r datblygiad.**

Rheswm Er mwyn sicrhau bod manylion ac edrychiad y datblygiad yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

**(12) Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno ar gyfer derbyn caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol ag Amod (1) uchod gynnwys cynllun o dirlunio a phlannu coed ar y safle fydd yn darparu ar gyfer cadw'r coed cyfredol. Rhaid i'r cynllun tirlunio ddangos y gwaith plannu a fwriedir yn cynnwys rhywogaethau, maint a dwysedd gan ddangos coed sydd i'w cadw a dangos eu rhywogaethau, eu taeniad a'u hoed ynghyd â mesurau i'w diogelu yn ystod y gwaith datblygu yn unol â BS 5837:2005 Coed mewn Perthynas ag Adeiladu. Rhaid i'r plannu newydd fydd wedi'i gymeradwyo gael ei wneud heb fod yn hwyrach na'r tymor plannu cyntaf ar ôl defnyddio'r adeiladau neu gwblhau'r datblygiad, prun bynnag yw'r cyntaf. Rhaid i'r mesurau diogelu fydd wedi'u cymeradwyo gael eu gweithredu cyn dechrau'r datblygiad.**

Reason: In the interests of the amenities of the locality.

(**13) Rhaid i unrhyw goed neu lwyni sy'n ffurfio rhan o'r cynllun tirlunio a gymeradwywyd ac sydd o fewn cyfnod o bum mlynedd o'u plannu yn methu sefydlu, yn cael eu difrodi'n ddifrifol neu'n clafychu, yn marw neu yn cael eu symud i ffwrdd am ryw reswm, gael eu newid yn ystod y tymor plannu nesaf am goeden neu lwyn o rywogaeth, maint ac oed fydd wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**

Rheswm: Er lles mwynderau'r ardal.

**(14) Rhaid i ddŵr wyneb a dŵr budr ddraenio o'r safle ar wahân.**

Rheswm: Er mwyn gwarchod y cyfan o'r garthffos gyhoeddus

**(15) Rhaid i'r fynedfa i gerbydau i mewn i'r datblygiad a ganiateir yma fod yn 7 metr o leiaf o led fel sy'n cael ei ddangos ar y cynlluniau a ganiateir yma.**

Rheswm : I leihau y perygl a'r anghyfleustra i ddefnyddwyr y briffordd.

**(16) Bydd raid sicrhau bod gosodiad y fynedfa a dull ei hadeiladu yn cydymffurfio'n llwyr gyda y cynlluniau a gyflwynwyd cyn dechrau ar y defnydd y rhoddir caniatâd iddo yma ac wedyn bydd raid cadw'r fynedfa yn glir o bob rhwystr parhaol a'i defnyddio i ddibenion mynediad yn unig.**

Rheswm : I leihau y perygl a'r anghyfleustra i ddefnyddwyr y briffordd.

**(17) Rhaid cwblhau'r fynedfa gyda wyneb bitwmen am y 5 metr cyntaf o ymyl agosaf y Briffordd Sirol gan sicrhau bod y system draenio dwr wyneb wedi ei chwblhau ac yn gweithio'n berffaith cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir yma.**

Rheswm : I leihau y perygl a'r anghyfleustra i ddefnyddwyr y briffordd.

**(18) Ni chaniateir i ddwr wyneb o gwrtil y safle lifo i'r Ffordd Sirol. Rhaid cwblhau draeniad y briffordd yn y fynedfa ar hyd y ffryntiad i gwrdd â gofynion yr Awdurdod Priffyrdd cyn cychwyn ar unrhyw waith ar weddill y datblygiad.**

Reason: To minimise danger and inconvenience to highway users.

**(19) Rhaid cwblhau'r lle parcio ceir yn gwbl unol â'r manylion fel a gyflwynwyd cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir yma ac wedyn bydd raid cadw'r lle parcio i'r dibenion hyn yn unig.**

Rheswm : I alluogi cerbydau i dynnu oddi ar y ffordd, parcio a throi o'r briffordd i leihau peryglon, rhwystr ac anhwylustod i ddefnyddwyr y briffordd gyfagos.

**(20) Ni chaniateir ar unrhyw adeg i wal/gwrych/ffens derfyn bresennol y briffordd nac unrhyw ffin terfyn newydd a godir yn wynebu'r briffordd fod yn uwch nag 1 metr uwchlaw lefel cerbydlon y ffordd sirol gyfagos o naill ben ffin y safle â'r briffordd i'r llall ac ni chaniateir codi unrhyw beth uwch na hynny o fewn 2m. i'r cyfryw wal.**

Rheswm : I ddarparu rhyng-welededd digonol rhwng y fynedfa a'r droedffordd gyhoeddus bresennol ar gyfer diogelwch a hwylustod cerddwyr a defnyddwyr y fynedfa.

**(21) Ni chaniateir cychwyn gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma hyd nes y bydd y manylion draenio canlynol wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol:**

1. **Manylion llawn a manylebau ar gyfer yr holl ddraeniau dŵr budr, dŵr wyneb a traeniau tir fydd yn gwasanaethu'r datblygiad (yn cynnwys yr holl fannau parcio a'r ffordd sy'n rhoi mynediad).**
2. **System reoleiddio dŵr wyneb os yw'n briodol.**

**Rhaid i'r manylion a gymeradwyir dan ddarpariaethau'r amod hon fod wedi'u gweithredu a'u cwblhau cyn bod neb yn byw yn y datblygiad.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn cael ei ddraenio'n iawn ac i rwystro'r risg gynyddol o lifogydd ar y safle ac oddi ar y safle.

**Gwybodaethau**

Ebost Cynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol 07.03.12.

Memo Gwasanaethau Amgylcheddol 20.03.12

Llythyr Dŵr Cymru 14.03.12 a chynlluniau

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Gwynedd Structure Plan**

FF11 (Traffig)

FF12 (Safonau Parcio)

FF15 (Gofynion Cerddwyr)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 (Polisi Cyffredinol)

26 (Parcio)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

TR10 (Safonau Parcio)

**Cyfarwyddyd Dylunio Ynys Môn (2008)**

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim wedi'i dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

**12. 6** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **34LPA956A/CA/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service**
**c/o Head of Service**
**Architects Department**
**Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Anglesey**
**LL77 7TW**

Caniatad Ardal Cadwraeth ar gyfer dymchwel y gyn meithrinfa yn

Conservation Area Consent for the demolition of former nursery at

Former Penrallt Nursery, Llangefni



**Pwyllgor Cynllunio: 02/05/0212**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Adroddir am y caniatâd ardal cadwraeth hwn gerbron y pwyllgor cynllunio gan ei fod yn ymwneud â thir y Cyngor ac yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Hen ysgol feithrin a thir cyfagos sydd ar safle'r cais ac maent mewn lle uchel ac amlwg gyferbyn a chroeslon ac yn gyfagos i lwybr cyhoeddus ac o fewn yr ardal gadwraeth. Tua'r gogledd mae'r tir yn disgyn i lawr i ardal Nant y Pandy yn Llangefni. Mae yna eiddo preswyl, sef tai teras tua'r dwyrain ar hyd y B5109.

Cais yw hwn am ganiatâd ardal gadwraeth i ddymchwel yr adeilad unllawr pri-ffab cyfredol sydd â tho asbestos sment.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Cyfraniad yr adeilad i gymeriad ac edrychiad yr ardal cadwraeth.
-

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D24 (Dymchwel mewn Ardal Gadwraeth)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

41 (Cadwraeth Adeiladau)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd "CDLl"**

GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

EN13 (Cadwraeth Adeiladau)

**Polisi Cynllunio Cymru**

**Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 "Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardal Gadwraeth"**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Yr Aelod Lleol** Dim sylwadau wedi'u derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Cyngor Cymuned** Dim sylwadau wedi'u derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Mae hwn yn adroddiad ar wahân ar gais cynllunio 34LPA956/CC ac ar gais am ganiatâd i dorri coed mewn orchymyn cadw coed (34LPA956B/TPO/CC hefyd ar yr agenda.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae’r cais hwn yn ymwneud ag adeilad unllawr pri-ffab gyda shitiau to asbestos sment ar y to.

Mae Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig “Cynllunio a’r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardal Gadwraeth” yn dweud “The general presumption should be in favour of retaining buildings which make a positive contribution to the character or appearance of a Conservation Area. Proposals to demolish such buildings should be assessed against the same broad criteria as proposals to demolish listed buildings. In cases where a building makes little or no such contribution the authority will normally need to have full information about what is proposed for the site after demolition. Consent for demolition should not be given unless there are acceptable and detailed plans for redevelopment.”

Mae’r adeilad presennol mewn lle amlwg yn yr ad-dal gadwraeth ac ystyrir bod ei wneuthuriad a’i edrychiad yn andwyol i’r rhan hon o’r ardal gadwraeth ac ystyrir felly bod y cynnig yn un derbyniol. Mae yna hefyd gais cynllunio ar wahân ar yr agenda ar gyfer y gwaith i ailddatblygu'r safle.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod gwneuthuriad ac edrychiad yr adeilad yn andwyol i’r rhan hon o’r ardal gadwraeth ac mae’r cais yn un derbyniol.

**8. Argymhelliad**

Bod caniatâd Ardal Gadwraeth yn y cael ei **Ganiatáu** gyda’r amodau a ganlyn:

**(01) Bydd y gwaith y rhoddwyd y caniatad yma iddo yn cychwyn cyn diwedd pum mlynedd o ddyddiad y caniatad hwn.**

Rheswm : I gydymffurfio gyda Adran 18 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

**12.7** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **34LPA956B/TPO/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Head of Service**
**c/o Head of Service Environment and Technical Services**
**Architects Section**
**Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Anglesey**
**LL77 7TW**

Torri coed sydd wedi eu diogelu dan Orchymyn Diogelu Coed yn

Felling of trees protected under a Tree Preservation Order at

Former Penrallt Nursery, Llangefni



**Pwyllgor Cynllunio: 02/05/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais yw hwn i dorri coed lle mae Gorchymyn Cadw Coed ac y mae ar dir y Cyngor ac yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Hen ysgol feithrin sydd ar y safle ac ar y tir cyfagos sydd mewn lle uchel ac amlwg gyferbyn â chroeslon a ger llwybr cyhoeddus ac o fewn yr Ardal Gadwraeth. Tua'r gogledd mae'r tir yn disgyn i lawr i ardal Nant y Pandy Llangefni sydd yn destun Gorchymyn Cadw Coed a lle ceir y safle sy'n destun yr adroddiad hwn.

Mae yna rai coed ceirios a choed jacmor bychan ar y safle (o dan 3 metr o uchder) sydd yn gymysgedd o sugnwyr ac adfywio o'r goedlan gyfagos a dwy goeden geirios (o dan 5 metr) ar y ffin gyda'r hen ysgol feithrin. Cais yw hwn i dorri'r coed rheini.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Gorchymyn Cadw Coed

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
Polisi 1 – Cyffredinol

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd "CDLl"**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
EN14 – Gorchymyn Cadw Coed a Gwrychoedd

**Polisi Cynllunio Cymru**

**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 10 Gorchmynion Cadw Coed**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Yr Aelod Lleol** – Dim sylwadau wedi'u derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.
**Cyngor Cymuned** – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Mae yna gais cynllunio ar wahân ar y rhaglen (34LPA956/CC)

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

Mae'r safle o fewn Gorchymyn Cadw Coed Nant y Pandy, rhif 30 wnaed yn 1971.

Nid yw'r safle yn nodweddiadol o'r goedwig yn Nant y Pandy gan nad oes yno unrhyw goed mawr ac nid oes yna dystiolaeth bod coed mawr wedi bod yno yn y gorffennol. Mae yna rai coed ceirios a jacmor bychan ar y safle (o dan 3 metr o uchder) sydd yn gymysgedd o sugnwyr ac adfywio o'r goedlan gyfagos a dwy goeden geirios fechan (o dan 5 metr) ar y terfyn gyda'r ysgol feithrin.

Nid oes yr un o'r coed hyn yn rhai o bwys fel rhywogaethau unigol. Eithaf rhannol yw eu swyddogaeth fwynderol ac maent yn sgrinio mymryn ar adeilad yr ysgol feithrin.

Mae Swyddog Coed y Cyngor wedi asesu'r cais ac nid oes ganddo unrhyw wrthwynebiadau o osod amod ar gyfer ailblannu coed ceirios i'r gorllewin o safle'r cais. Bydd y rhain yn gwella'r fynedfa i Nant y Pandy ac yn darparu sgrinio rhannol rhwng y fynedfa i Nant y Pandy a'r posibilrwydd o ailddatblygu'r safle.

## 7. Casgliad

Nid oes unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig i destun gofyniad i ailblannu.

## 8. Argymhelliad

Mae'r Caniatâd Gorchymyn Cadw Coed yn cael ei **ganiatáu** yn amodol ar yr amod canlynol:

**(01) Rhaid ailblannu coed fel a nodir yng nghynllun HP 201-A3-05 yn ystod y tymor plannu cyntaf Hydref i Fawrth yn gynwysedig yn dilyn torri'r coed neu fel caiff ei gytuno'n wahanol yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**

Rheswm: Er lles mwynderau.

**(02) Rhai gweithredu'r cynllun tirweddu fel a ddangosir ar ddarlun rhif HP201-A3-05 ddim hwyrach na'r tymor plannu cyntaf ar ol meddiannu'r adeilad(au) neu gwblhau'r datblygiad, pa un bynnag yw'r cyntaf.**

Rheswm: Er budd mwynderau gweledol yr ardal.

## 9. Polisïau Perthnasol Eraill

Dim

## 10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd

Dim wedi eu derbyn ar adeg ysgrifennu

**12.8** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **41C103M** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr. O. Owen**
**c/o Savills**
**Wessex House**
**Prior Walk**
**East Borough**
**Wimborne**
**Dorset**
**BH21 1PB**

Cais llawn ar gyfer codi mast anemometer 40.5m o uchder dros dro ar dir

Full application for the erection of a temporary 40.5m high anemometer on land at

Ty Gwyn, Penmynydd



**Pwyllgor Cynllunio: 02/05/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (NJ)**

**Argymhelliad:**

. Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Fe alwyd y cais i mewn gan yr Aelod Lleol i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r ymgeisydd yn perthyn i aelod o staff yn yr Adran Gynllunio.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais tua 1,1km i'r gogledd ddwyrain o fast Penmynydd ac o fewn tirwedd amaethyddol.

Cais yw hwn i godi mast anemomedr 40.5 metr o uchder am gyfnod dros dro hyd at 18 mis.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Materion allweddol yw – a yw'r cynnig yn dderbyniol o ran polisi – effaith weledol ac ar y tirwedd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
31 – Tirwedd
45 – Ynni Adewyddiadwy

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

C7 – Ynni Adnewyddiadwy
D3 – Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd
D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
8B – Datblygiadau Ynni
EP18 – Ynni Adnewyddiadwy
EN1 – Cymeriad Tirwedd

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 4)

TAN 8: Ynni Adnewyddiadwy

CCA: Datblygiadau Ynni Gwynt.

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol - Yn gofyn am i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor oherwydd y gwrthwynebiadau cryf yn lleol

Cyngor Cymuned –

Priffyrdd –

Gwasanaethau Amgylcheddol –

Draenio – Sylwadau

Cyngor Cefn Gwlad Cymru –

Yr Weinyddiaeth Amddiffyn –

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais trwy osod rhybudd safle, anfon rhybuddion personol a hysbyseb yn y wasg. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 2 Mai. Nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

41C103K/SCR – Barn Sgrinio ar gyfer codi un tyrbin gwynt gydag uchafswm uchder hwb o hyd at 49.9m, diametr rotor o hyd at 33.4m ac uchafswm uchder syth o hyd at 66.6m ar dir yn Ty Gwyn, Penmynydd – Dim angen Asesiad Effaith Amgylcheddol.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Cais yw hwn i godi mast anemomedr 40.5 metr o uchder am gyfnod dros dro o hyd at 18 mis.

Mae safle'r mast arfaethedig o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd 12 : Dwyrain Canol Ynys Môn yn Niweddariad Strategaeth Tirwedd Ynys Môn 2011, oddeutu 3km oddi wrth yr AHNE dynodedig. Tiwb 15cm wedi'i galfaneiddio yw'r mast gyda gwifrennau cynnal 5mm. Nid yw'r anemomedrau eu hunain (o'u cymharu â'r mast) ond yn nodweddion bychan iawn.

Mae mast telegyfathrebu Penmynydd sydd tua 1km i'r de orllewin o'r cynnig tua 45.8m o uchder ar 106m uwch lefel y môr. Mae safle'r cais tua 70m uwchben lefel y môr.

Nid oes unrhyw briffyrdd cyhoeddus na llwybrau troed o fewn 650 metr i'r safle ac felly mae'n debyg y bydd golygfeydd y cyhoedd o ardal y strwythur yn debygol o fod yn olygfeydd o'r mast ac nid o'r gwifrau cynhaliol na'r anemomedrau.

Mae yna anheddau o fewn 500m i'r cynnig ynghyd a hen eglwys ganoloesol St Gredifael. Mae'n debyg y bydd y strwythur i'w weld o nifer o safleoedd cyhoeddus a phreifat yn ymestyn o'r pellter hwn. Bydd y golygfeydd yn dibynnu ar y topograffi lleol, nodweddion adeiledig a naturiol a'r amser o'r flwyddyn.

Cesglir, felly, y bydd yr effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol gaiff y mast ar yr ardal yn un weddol andwyol ond dim yn un sylweddol ac fe ellir ei newid oherwydd natur tros dro y cynnig.

**7. Casgliad**

Ystyrir for y bwriad yn dderbyniol dros dro o osod amodau.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**.

**(01) Rhaid cael gwared o'r mast anemometr a ganiateir yma fel na fydd olion ohono ar y tir erbyn 4/10/2013 ag adfer y tir i'r hyn ydoedd cyn /31/01/2014.**

Rheswm: Am gyfnod dros dro'n unig y rhoes yr awdurdod cynllunio lleol ganiatâd.

**12.9** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **41LPA957/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Services (Waste)**
**c/o AMEC Environment & Infrastructure UK Ltd**
**Abbey Lawn**
**Abbey Foregate**
**Shrewsbury**
**Shropshire**
**SY2 5DE**

Cais llawn ar gyfer creu canolfan ailgylchu gwastraff cartref ynghyd a gwaith cysylltiedig yn

Full application for the creation of a household waste recycling centre together with associated works at

Penhesgyn Landfill, Menai Bridge



**Pwyllgor Cynllunio: 02/05/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (RWW)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan Adran Rheolaeth Gwastraff y Cyngor ydyw.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais wedi'i leoli ar safle rheoli gwastraff y Cyngor ym Mhenesgyn.

Bwriad y cais yw creu canolfan ailgylchu gwastraff tŷ newydd i'r de o'r safle presennol. Mae'r ganolfan arfaethedig wedi ei gynllunio er mwyn:

- Gwella rheolaeth traffig safle Penhesgyn gyfan drwy arwahanu'r drafnidiaeth gyhoeddus sydd yn defnyddio'r ganolfan, i ffwrdd o'r lorïau trwm masnachol sydd yn gwasanaethu'r orsaf drosglwyddo gwastraff, cyfleuster compostio a'r cyfleuster tirlenwi. Gwneir hyn drwy adeiladu cylchfan o fewn y safle.
- Ehangu maint y ganolfan er mwyn caniatáu i fwy o sgips gael eu lleoli ar y safle, gan o ganlyniad ehangu ar y deunyddiau a chategorïau gwastraff y gall y cyhoedd waredu yn y canolfan.
- Gwella rheolaeth traffig o fewn y ganolfan drwy greu llwybr cylchog unffordd, sydd yn golygu nad oes angen i foduron fagio oddi fewn y safle er mwyn troi rownd.

Lleoli swyddfa symudol mewn lleoliad strategol yng nghanol y safle.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A yw'r bwriad am gyfrannu i wella'r gweithgareddau rheoli gwastraff sydd yn digwydd ar y safle ar hyn o bryd. A yw'r cynnig yn dderbyniol o ran polisi cynllunio, ac ystyriaethau cynllunio materol.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
Polisi 1 - Cyffredinol
Polisi 29 – Cael Gwared â Gwastraff
Polisi 42 – Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
Polisi D18 – Ymgymeriadau Gwaredu Gwastraff

**Cynllun Unedol Ynys Môn wedi'l atal**
Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheolaeth Datblygu
Polisi WP5 – Ailgylchu
Polisi WP7 – Safleoedd Mwynderau Dinesig

**Nodyn Cyngor Technegol 21 –** Gwastraff

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim sylw

Cyngor Cymuned – Dim sylw

Awdurdod Priffyrdd – Dim sylw

Awdurdod Priffyrdd (Draeniad) – Dim sylw

Gwasanaethau Amgylcheddol (Iechyd) – Dim sylw

Dŵr Cymru – Dim sylw

Asiantaeth yr Amgylchedd – Dim sylw

Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Dim sylw

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais drwy hysbyseb papur newydd lleol, gosodwyd rhybudd ar y safle a llythyrau hysbysu i gymdogion. Ni dderbyniwyd unrhyw sylw'n gysylltiedig â'r cyhoeddusrwydd.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

**A/570** Use of land O.S enclosures no. 499, 514, 502 and part O.S 513 at Penhesgyn Gors, Llansadwrn for the controlled tipping of refuse.
**Caniatawyd 1/7/1964**

**17C254** - Amendment to restoration contours at Penhesgyn Landfill Site near Menai Bridge.
**Caniatawyd 3/3/1998**

**17C254A -** Installation of a "portakabin" for use as an eating area together with toilets for the benefit of the employees of the landfill site at Penhesgyn, Penmynydd.
**Caniatawyd 9/5/1997**

**17C254B -** Erection of a plant and vehicle maintenance building at Penhesgyn Landfill Site, Llansadwrn.
**Caniatawyd 9/8/2000**

**17C254C/SCR** - Screening Opinion application for 1. Two new landfill cells to be constructed adjacent to the existing cells. 2. Provisions of Materials Recovery Facility for recovery and recyclable materials. 3. Provisions of a composting facility for the composting of green and mixed organic waste at Penhesgyn, Menai Bridge.
**Ddim angen EIA 3/2/2004**

**17C254D/SCO -** Scoping opinion for the extension to the existing landfill site together with the provision of a materials recovery facility, composting facility for green and mixed organic waste and redevelopment of civic amenity/household waste recycling centre at Penhesgyn, Penmynydd.
**Yn angen EIA 26/7/2004**

**17C254E/ECON -** Development of a waste transfer and materials recovery facility at Penhesgyn Landfill Site, Menai Bridge.
**Caniatawyd 06/07/2005**

**17LPA494/DC -** Formation of a civic amenity waste reception complex including offices and weighbridge at Penhesgyn Gors, Refuse Disposal Area, Menai Bridge.
**Caniatawyd 05/08/1987**

**17LPA494A/DC -** Extensions and raisings of levels at the Penhesgyn Gors Refuse Tip, Menai Bridge.
**Tynnwyd yn ôl 06/02/1985**

**17LPA494C/DC -** Provision of a pulveriser waste disposal plant at Penhesgyn Gors Refuse Tip, Menai Bridge.
**Caniatawyd 06/03/1985**

**17LPA494D/DC -** Formation of a civic amenity waste reception complex including offices and weighbridge at Penhesgyn Gors, Refuse Disposal Area, Menai Bridge.
**Caniatawyd 01/07/1987**

**17LPA494E/DC -** Alterations to vehicular access at Penhesgyn Gors, Waste Disposal Site, Menai Bridge.
**Caniatawyd 09/07/1987**

**17LPA494F/DC -** Extension of refuse tip at Penhesgyn Gors, Waste Disposal Site, Menai Bridge.
**Caniatawyd 05/08/1992**

**17LPA494G/CC/ECON -** Datblygu darpariaeth compostio mewn cynhwysydd ynghyd a mynedfa a thanadeiledd a thirlunio cysylltiedig yn / The development of an in-vessel composting facility and associated access, infrastructure and landscaping at Penhesgyn Landfill Site, Penhesgyn Gors, Llansadwrn,
**Caniatawyd 08/03/2006**

**17LPA494H/CC -** Cais amlinellol ar gyfer datblygiad o gyfleuster pwer nwy claddfa sbwriel ynghyd a'i fynedfa, rhwydwiath mewnol a thirlunio cysylltiedig ar dir yn / Outline application for the development of a landfill gas power generation facility and associated access, infrastructure and landscaping on land at Penhesgyn Landfill site, Penhesgyn Gors, Llansadwrn.
**Caniatawyd 19/12/2006**

**17LPA494J/CC -** Cais materion a gadwyd yn ol ar gyfer datblygu cyfleuster pwer nwy claddfa sbwriel ynghyd a'i fynedfa, rhwydwaith mewnol a thrilunio cysylltiedig ar dir yn / Reserved matters application for the development of a landfill gas powered generation facility and associated access, infrastructure and landscaping on land at Penhesgyn Landfill Site, Penhesgyn Gors, Llansadwrn.
**Caniatawyd 06/09/2007**

**17LPA494K/CC -** Cais i ddiwygio amod (09) ar ganiatâd cynllunio 17LPA494G/CC/ECON i ganiatau newidiadau i'r cynllun ar gyfer darpariaeth compostio mewn cynhwysydd a ganiatawyd gan gais cynllunio 17LPA494G/CC/ECON ar dir yn / Variation of condition (09) of planning permission ref: 17LPA494G/CC/ECON so as to allow amendments to in-vessel composting facility Approved under planning ref: 17LPA494G/CC/ECON on land at Penhesgyn Landfill Site, Penhesgyn Gors, Llansadwrn.
**Caniatawyd 04/10/2007**

**17LPA494M/CC -** Cais i ddiwygio amod (08) ar ganiatâd cynllunio 17LPA494G\CC\ECON i ddarllen fel a ganlyn: Ni ddylai'r datblygiad fod yn weithredol hyd nes y bydd gweilliannau priffordd i gyffordd B5420 gyda Ffordd Penhesgyn wedi eu cwblhau i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn lle'r gweilliannau i'r briffordd a ganiatawyd yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio 17LPA494G\CC\ECON ar dir yn / Variation of condition (08) on planning permission 17LPA494G\CC\ECON to read as follows: The development shall not become operational before the highway improvement works to the junction of the B5420 with the Penhesgyn Road are completed to the satisfaction of the LPA in lieu of the highway improvement works previously Approved under planning application reference 17LPA494G\CC\ECON on land at Penhesgyn Landfill Site, Penhesgyn Gors,
**Caniatawyd 11/03/08**

**17LPA494N/CC -** Cais i gadw'r sied gynnal a chadw bresennol, adeiladau'r caban lles a'r ystafell sychu yn gysylltiedig â hen Safle Tirlenwi Penhesgyn yn/Application for the retention of the existing maintenance shed, welfare cabin and drying room buildings associated with the former Penhesgyn Landfill Site at Penhesgyn Site
**Caniatawyd 18/01/2011**

**17LPA494P/CC/SCR -** Barn Sgrinio ar gyfer uwchraddio arfaethedig mewn canolfan ailgylchu gwastraff cartref yn/ Screening Opinion for proposed upgrade in household waste recycling centre at Penhesgyn Landfill Site, Penhesgyn.
**Ddim angen EIA 31/01/2012**

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae gofynion Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, yn ogystal ag amcanion Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn amlinellu'r angen i ddatblygu rhwydwaith gynaliadwy o gyfleusterau ar gyfer trin gwastraff gyda phwyslais arbennig ar yr angen i ddarparu cyfleusterau ar gyfer ail ddefnyddio ac ailgylchu gwastraff. Mae'r galw am ailddefnyddio neu ailgylchu deunyddiau gwastraff wedi cynyddu'n sylweddol mewn ymateb i'r cyfarwyddyd Ewropeaidd drwy'r Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2000, i ailgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi i ffynonellau lle gellir gwneud defnydd cynaliadwy ohono.

Mae Penhesgyn eisoes wedi derbyn caniatâd ar gyfer canolfan gwastraff dinesig ym 1987. Mae'r polisïau a chyfarwyddiadau cenedlaethol a nodwyd uchod wedi rhoi pwyslais cryfach ar ailgylchu gwastraff. O ganlyniad, mae canolfannau ailgylchu a gafodd eu caniatáu yn y gorffennol angen eu diweddaru er mwyn cwrdd â'r defnydd cynyddol sydd yn cael eu gwneud ohonynt erbyn heddiw.

Ystyrir bod y ganolfan ailgylchu gwastraff tŷ newydd y ceisir amdano yma yn ddarpariaeth angenrheidiol a hanfodol i weithrediad esmwyth safle Penhesgyn gyfan. Ystyrir y bydd yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ailgylchu eu gwastraff ac yn galluogi mwy o ddewisiadau ailgylchu, ystyrir hefyd y bydd yn hwyluso'r fynedfa a hygyrchedd i'r safle cyfan drwy wella'r rhwydwaith ffordd o fewn y safle.

Bydd angen cael gwared a dwy goeden a chlawdd er mwyn lleoli'r gylchfan newydd; er hyn gellir lliniaru unrhyw effaith drwy amodi cynllun tirlunio a phlannu derbyniol. Nid ydwyf yn ystyried y dylid rhoddi amod penodol ar oriau agor y ganolfan, gan fod hyn yn cael ei reoli yn dderbyniol gan Adran Wastraff y Cyngor ar hyn o bryd.

**7. Casgliad**

Ni dderbyniwyd unrhyw sylw gwrthwynebus gan ymgynghorwyr statudol, nag aelodau o'r cyhoedd i'r cais hwn. Ac yn seiliedig ar yr adroddiad uchod ystyrir fod y datblygiad yn unol â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol a nodwyd oddi fewn y ddogfen hon.

**8. Argymhelliad**

**Caniatáu'r** cais yn ddarostyngedig i'r amodau cynllunio canlynol:

**(01) Rhaid cychwyn y gwaith y cyfeiria'r caniatâd hwn ato o fewn 5 mlynedd o ddyddiad y caniatâd.**

Rheswm: I atal casglu caniatadau cynllunio sydd heb eu gweithredu

**(02) Cymerir camau priodol digonol i sicrhau fod y safle yn cael ei gynnal mewn cyflwr glan a thaclus i fodlonrwydd yr awdurdod cynllunio lleol. Ni chaniateir storio deunyddiau gwastraff ar unrhyw adeg**

**tu allan i ardal sydd wedi'i glustnodi ac ni chaniateir i adael unrhyw eitemau ar y llawr ar unrhyw adeg.**
Rheswm: Gofalu y datblygir y safle'n briodol ac er budd mwynderau gweledol yr ardal

**(03) Oni bai fod amod cynllunio yn gofyn am hynny, neu fod cytundeb ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol, rhaid i'r datblygiad gael ei wneud yn hollol unol â'r lluniadau, cynlluniau a'r manylion cyflwynwyd gyda'r cais dyddiedig 14/03/2012 ac unrhyw fanylion eraill a gymeradwywyd wedi hynny mewn ysgrifen gan yr awdurdod cynllunio lleol.**
Rheswm: Gofalu y datblygir y safle'n briodol

**(04) Ni chaniateir unrhyw waith ar y safle fydd yn achosi codi llwch a rhaid dyfrio pob ardal lle bydd cerbydau olwyn yn teithio arnynt wrth symud defnyddiau, neu eu trin pryd bynnag fydd angen i arbed codi llwch o'r fath.**

Rheswm: Er lles mwynderau cymdogion a thrigolion cyfagos.

**(05) Oni chytunir fel arall mewn ysgrifen, ni chychwynnir ar unrhyw ddatblygiad awdurdodir dan y caniatâd hwn oni chyflwynir manylion lleoliad a manylebion unrhyw lifoleuadau er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol. Byddir yn cysgodi'r holl lifoleuadau mewn modd i leihau effaith y golau a wasgerir at i fynnu.**

Rheswm: Er lles mwynderau cymdogion a thrigolion cyfagos.

**(06) Oni chytunwyd fel arall yn ysgrifenedig rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau o fewn 6 mis i ddyddiad y caniatâd hwn, cynllun tirlunio manwl gydag atodlen plannu coed a llwyni sydd i'w weithredu wedi hynny yn unol â gofynion amod 7.**

Rheswm: Er lles mwynderau gweledol yr ardal

**(07) Rhaid cyflawni'r holl blannu a gynhwysir yn y manylion tirlunio a phlannu coed cymeradwy yn ystod y tymor plannu a hadu cyntaf ar ôl cwblhau'r datblygiad neu feddiannu'r eiddo pa bynnag a ddaw gyntaf. Yn achos unrhyw goeden neu blanhigion a fydd o fewn cyfnod o 5 mlynedd o gwblhau'r datblygiad yn marw, a symudir neu a niweidir yn ddifrifol neu a ddaw'n heintus rhaid eu symud a phlannu yn eu lle yn ystod y tymor plannu nesaf eraill cyffelyb o ran maint a rhywogaeth oni bai i'r awdurdod cynllunio lleol ganiatáu amrywiad mewn ysgrifen.**

Rheswm: Er lles mwynderau gweledol yr ardal

**12.10** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **42C107B** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr D Lathwood**
**c/o Penseiri Russell-Hughes Architects**
**56 Bridge Street,**
**Llangefni,**
**Ynys Môn.**
**LL77 7HH.**

Dymchwel yr ystafell haul presennol ynghyd ac addasu ac ehangu yn

Demolition of existing conservatory together with alterations and extensions at

Bryn Hyfryd, Lon Clai, Pentraeth



**Pwyllgor Cynllunio: 02/05/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(JBR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Ar gais yr Aelod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle’r cais tua dwy ran o dair o’r ffordd i lawr Lôn Clai ar gyrion Pentraeth.

Y bwriad yw dymchwel yr ystafell haul bresennol yng nghefn yr eiddo, codi ystafell amlbwrpas yn yr ochr a chodi estyniad newydd a hefyd codi balconi ar y talcen ffrynt.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif fater yw a yw’r cynnig yn dderbyniol o ran ei safle, ei ddyluniad a’i edrychiad allanol a’r effaith a gaiff ar y lleoliad ac ar fwynderau deiliaid eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
42 – Dylunio
58 – Estyniadau

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio
D29 – Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
GP2 – Dylunio

**Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 4)**

**TAN 12: Dylunio**

**CCA: Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig.**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol - Yn gofyn i’r cais gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad.

Dwr Cymru – Sylwadau

Cyngor Cymuned – Sylwadau, wedi ei fanylu yn yr ymateb i gyhoeddusrwydd isod.

Priffyrdd – Dim argymhelliad

Draenio – Sylwadau.

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Cafwyd dau lythyr gan ddeiliaid eiddo cyfagos a hefyd sylwadau gan y Cyngor Cymuned. Mae'r sylwadau yn cael eu crynhoi isod:

- Mae'r newidiadau i'r eiddo, sydd mewn lle amlwg ac y gellir ei weld o'r lôn fawr ac y mae o fewn AHNE dynodedig a bydd yn newid ei ddyluniad yn sylweddol.
- Bydd y balconi y bwriedir ei osod ar y ffrynt yn edrych tros yr eiddo cyfagos yn Tyn Berllan, yn arbennig golygfeydd i ffenestr y brif lofft fydd yn achosi colli preifatrwydd.
- Ailgartref yw Bryn Hyfryd (yr hen Casa Fina) ac nid yw'n cyfrannu ond ychydig i gynaliadwyaeth y gymuned.
- Mae ffrynt yr eiddo presennol yn un sy'n gweddu'n iawn yn y lleoliad ac yn cynnig golygfeydd dirwystr i'r môr a'r cefn gwlad oddi amgylch o ffrynt yr eiddo ar y lefel isaf a'r llawr cyntaf. Nid yw'r balconi arfaethedig yn talu dim sylw i'r cymdogion fyddai'n cael eu heffeithio ac mae'r balconi yn edrych tros eu heiddo. Byddai hefyd yn anharddu ffrynt yr eiddo ac yn creu wyneb heb falans iddo gyda hynny'n annerbyniol o fewn AHNE.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan y Cyngor Cymuned yn cynnwys:

- Mae cwestiwn 7 ar y ffurflen gais yn ymwneud â choed a gwrychoedd ac mae'n gofyn a oes yna unrhyw goed neu wrychoedd ar eiddo cyfagos sydd o fewn pellter disgyn ac a fydd yn rhaid symud unrhyw goed / gwrychyn er mwyn gallu gwneud y gwaith. Yr ateb a roddir i'r ddau gwestiwn yw 'na', ond mae coeden eucalyptus oedd yn tyfu uwchben yr ystafell haul bresennol wedi cael ei thorri yn ddiweddar.
- Ni chafodd perchennog yr eiddo agosaf, Tyn Berllan unrhyw rybudd o'r cais.
- Nid yw'r ffurflen gais yn dweud dim am y balconi a fwriedir ac ni sylwyd ar yr elfen hon ond trwy archwilio'r cynlluniau a gyflwynwyd yn ofalus.
- Bydd y balconi a fwriedir yn edrych tros Tyn Berllan ac i mewn i ffenestr y brif lofft.

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd uchod gan y cymdogion a'r Cyngor Cymuned:

- Mae'n amlwg y bydd y cynnig yn newid dyluniad yr annedd bresennol ond nid ydym yn credu bod y gwaith altro a fwriedir yn waith altro sylweddol, mae'r cynigion o ddyluniad da ac fe fydd yn toddi i mewn yn dda gyda'r annedd bresennol. Bydd y balconi a fwriedir yn y ffrynt yn cael effaith ar edrychiad y ffrynt ond nid ydym yn credu y byddai ei effaith yn ddigon i ni allu cyfiawnhau gwrthod y cais.
- Rhoddwyd copïau o lythyrau a dderbyniwyd gan gymdogion i asiant yr ymgeisydd. Mewn ymateb, mae'r asiant wedi darparu ffotograffau wedi'u cymryd o'r ffenestr ganol ar y llawr cyntaf, sy'n dangos mai dim ond to Tyn Berllan fydd i'w weld.
- Nid yw hyn yn ystyriaeth gynllunio o bwys.
- Bydd y balconi a fwriedir yn y ffrynt yn effeithio edrychiad y ffrynt ond nid ydym yn credu y byddai ei effaith yn ddigon i gyfiawnhau gwrthod y cais. Ymhellach i hyn, fe gafwyd tystiolaeth na fydd y balconi arfaethedig yn golygu y bydd yna unrhyw edrych drosodd na cholli preifatrwydd i gymdogion.
- Nid oes yna unrhyw Orchmynion Cadw coed ar unrhyw goed yn yr ardal hon ac roedd y gwaith o dorri'r goeden eucalyptus y cyfeirir ati wedi digwydd cyn cyflwyno'r cais.
- Fe roddwyd rhybudd i Tyn Berllan am y cais. Rhaid dweud i'r perchennog, sydd yn byw mewn gwirionedd ym Mrynteg, wneud sylwadau ar y cais. Hefyd fe gafodd rhybudd safle ei osod ger y safle ac felly roedd hynny yn mynd tu hwnt i'r gofynion cyhoeddusrwydd statudol.
- Nid yw'n arferol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddisgrifio mewn manylder bob agwedd o bob cais yn y disgrifiad a roddir, gan mai dyna yw pwrpas y cynlluniau sydd gyda'r cais, ac fe ddisgrifir pob math o geisiadau gan berchnogion fel rhai am waith addasu ac ymestyn ac wrth ystyried y gall y balconi a

fwriedir yn rhesymol gael ei ddisgrifio fel gwaith altro i'r eiddo, credir bod y disgrifiad yn ddigonol.
- Fe gafwyd tystiolaeth na fydd y balconi a fwriedir yn creu unrhyw edrych trosodd na cholli preifatrwydd i gymdogion agos.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

42C107 - Ail-adeiladu yr eiddo a adnabyddi'r fel Casa Fina ynghyd a addasiad ac ehangiad yn Traeth Coch – Caniatau – 7.7.92

42C107A – Codi ystafell haul yn Casa Fina, Pentraeth – Caniatau – 6.4.99

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Y bwriad yw dymchwel yr ystafell haul bresennol yn y cefn a chodi estyniad newydd yn y cefn ac ystafell aml bwrpas newydd ar yr ochr a chodi balconi ar y ffrynt.

Mae'r estyniad a fwriedir yn y cefn yn un to fflat gyda goleuni lantern yn y canol, waliau parapet isel ar ddwy ochr yr estyniad fydd yn copïo nodweddion y ty presennol.

Tra nad yw hyn yn cydymffurfio'n hollol gyda'r cyfarwyddyd geir yn y CCA, credir ei fod yn dderbyniol yma oherwydd fe gredir na fyddai estyniad to crib yn bosibl heb guddio'r ffenestri dormer ar yr ochr ac y mae hefyd o ddyluniad ansawdd uchel sy'n toddi'n dda ac yn gweddu gyda'r eiddo presennol heb iddo ddominyddu.

O safbwynt y balconi arfaethedig ar y ffrynt. Rydym yn cydnabod y bydd ychydig o symmetry yr wyneb ffrynt yn cael ei golli ond mae'r balconi a fwriedir yn un o wneuthuriad gwydr a dur ac ni fydd yn cuddio'r wyneb ffrynt yn gyfan gwbl.

Mynegwyd pryderon gan ddeiliaid eiddo cyfagos ynglŷn â'r tebygrwydd o edrych drosodd a cholli preifatrwydd oherwydd y balconi. Fe anfonwyd copiau o'r llythyrau a gafwyd i asiant yr ymgeisydd am ei sylwadau. Mewn ymateb fe roddodd yr asiant ffotograffau wedi'u cymryd o ffenestr y llawr cyntaf sef y lle y bydd y fynedfa i'r balconi, ac y mae copi wedi'i gynnwys yn y pecyn llythyrau. Mae'r ffotograffau'n dangos mai dim ond to Tyn Berllan fydd i'w weld o'r balconi fydd 200m yn is na'r pwynt lle cymerwyd y ffotograff.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol, felly, yn fodlon na fydd y balconi arfaethedig yn creu problemau edrych drosodd neu colli preifatrwydd ond mae copiau o ymateb yr asiant wedi'u hanfon allan i gymdogion sydd wedi gwneud sylwadau gan ofyn iddynt anfon unrhyw sylwadau pellach erbyn 1 Mai 2012. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu cynnwys yn y pecyn llythyrau.

Mae safle, dyluniad, maint a deunyddiau'r gwaith altro a fwriedir a'r estyniadau yn rhai derbyniol ac nid ydym yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau deiliaid eiddo cyfagos oherwydd edrych trosodd, gorgysgodi, dominyddu na cholli preifatrwydd.

**7. Casgliad**

Ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o osod amodau.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid i orffen waith allanol yr estyniad arfaethedig weddu i liw ac ansawdd yr adeilad presennol.**

Rheswm:   Sicrhau y bydd y datblygiad yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(03) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 29.02.2012 o dan cais cynllunio rhif. 42C107B.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

30 – Tirwedd

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D1 – AHNE Ynys Mon

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

EN2 – AHNE

**Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 4)**

**TAN 12: Dylunio**

**CCA: Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig.**

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim.